**PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL**

**Dyddiad:** 3 Chwefror 2000

**Amser:** 9.30am

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Teitl: Adroddiad Ymchwiliad Stephen Lawrence**

Gwahoddir y Pwyllgor:

- i sylwi ar y nodyn atodedig o gyfarfod ar adroddiad Ymchwiliad Stephen Lawrence (Atodiad A); ac
- i gytuno ar yr argymhellion i weithgor symud pethau yn eu blaenau (Atodiad B).

**Atodiad A**

**Pwyllgor Cydraddoldeb Cyfle**

**NODYN CYFARFOD GWEITHGOR YMCHWILIAD STEPHEN LAWRENCE: 19 IONAWR 2000**

**Yn bresennol:**

Richard Edwards AC
Helen Mary Jones AC
David Melding AC
Kirsty Williams AC
Jazz Iheanacho Race Equality First
Rob Cater Race Equality First
Charles Willie Adain Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cydraddoldeb a Phenodiadau Cyhoeddus

Julie Bragg Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor
Mark Christopher " "

1. Penodwyd y Gweithgor gan y Pwyllgor Cyfle Cyfartal i lunio cynllun gweithredu er mwyn mynd ag argymhellion perthnasol Adroddiad Stephen Lawrence yn eu blaen ac i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar gynnydd. Croesawodd yr Aelodau sefydlu'r Gweithgor a fyddai'n galluogi i'r Cynulliad ddarparu cyfeiriad strategol a chyflawni gweithrediadau ymarferol a gweladwy ar y testun pwysig hwn.

   Gweithredu – Charles Willie i ddrafftio Cylch Gorchwyl manwl ac amserlen ar gyfer y Gweithgor i'w cymeradwyo gan y Pwyllgor

   **Addysg**

2. Roedd y Cadeirydd wedi derbyn ymateb i'w llythyr at Rosemary Butler ar argymhellion yn gysylltiedig ag addysg. Gan fod argymhelliad 67 yn ymwneud â'r cwricwlwm mor bwysig, tybiwyd bod angen i'r Pwyllgor drafod hyn cyn gynted â phosibl. Roedd argymhelliad 68 yn ymwneud â monitro a chyflawni safonau o fewn ysgolion. Roedd yr Adain Bolisi a oedd yn gyfrifol am y gwaith hwn yn dechrau ymgynghoriad ar hyn o bryd a disgwylir y bydd rhwyfaint o waith da yn deillio o hyn.
3. Roedd argymhelliad 69 yn cwmpasu strategaethau ysgolion mewn ymateb i adroddiad yr ymchwiliad a'u monitro ac arolygu yn dilyn hyn gan ESTYN. Teimlir nas ymdriniwyd â'r materion hyn yn effeithiol. Mynegwyd pryderon hefyd ynglí n â hyfforddi Llywodraethwyr Ysgol a diffyg monitro tarddiadau ethnig Llywodraethwyr ar hyn o bryd.

   Gweithredu – Yn amodol ar gytundeb y Cadeirydd, byddai Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor yn gwahodd swyddogion i ddarparu papur i'r Pwyllgor ar y sefyllfa gyfredol ac yn gwahodd Rosemary Butler ac ACCAC i gyfarfod cynnar o'r Pwyllgor. Byddai'r Pwyllgor hefyd yn cael ei wahodd i ystyried a ddylid sefydlu grë p er mwyn mynd â'r pwyntiau gweithredu ar addysg a oedd yn deillio o hyn yn eu blaen. Gallai'r grë p gynnwys swyddogion o ACCAC, ESTYN, Race Equality First a'r Cynulliad Cenedlaethol.

4. Roedd cynhadledd genedlaethol, o'r enw "MacPherson, One Year On" o bosibl, yn cael ei chynllunio gan Race Equality First ar gyfer mis Medi/Hydref 2000. Byddai hon yn cael ei threfnu mewn partneriaeth â'r Cynulliad. Byddai'r Cabinet ac Aelodau'r Cynulliad yn cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn digwyddiadau eraill megis Wythnos Ymwybyddiaeth a byddent hefyd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau'r Awdurdodau Lleol.

   **Arweinyddiaeth y Cynulliad**

5. Roedd yn bwysig i'r Cynulliad arwain o'r blaen a gwneud popeth o fewn ei allu ei hun. Yn ogystal, dylai'r Pwyllgor fod yn rhoi atebion i'r Cynulliad gyda'r nod o ysgogi gweithredu gan gyrff cyhoeddus eraill ar argymhellion yr Adroddiad. Yn bwysicaf oll, byddai hyn yn cynnwys gwella'r broses penodiadau cyhoeddus. Byddai hefyd o fudd cynnwys y Cyngor Partneriaeth a'r

sector preifat yn y broses hon.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**
**Ionawr 2000**

**Atodiad B**

**YMCHWILIAD STEPHEN LAWRENCE – ARGYMHELLION Y GWEITHGOR LLYWIO**

1. Yn y cyfarfod ar Ymchwiliad Stephen Lawrence ar 19 Ionawr cytunwyd i gynhyrchu papur byr i alluogi'r Pwyllgor sefydlog ar Gydraddoldeb Cyfle i ystyried:

   i cylch gorchwyl y gweithgor llywio (Atodiad 1);
   ii sefydlu gweithgor bychan o swyddogion a chyrff allanol priodol i dywys argymhellion adroddiad Ymchwiliad Stephen Lawrence ar addysg yn eu blaen (Atodiad 2).

**Cefndir**

2. Cafodd y gweithgor o wirfoddolwyr eu gwahodd i ystyried sut y dylai'r Cynulliad dywys argymhellion adroddiad Ymchwiliad Stephen Lawrence yn eu blaen. Roeddent i ystyried argymhellion addysgol yr adroddiad yn benodol.
3. Mae tri argymhelliad (67-69) yn yr adroddiad sydd yn ymwneud yn benodol ag addysg. Mae argymhelliad 67 yn ymwneud â gwerthfawrogi amrywiaeth diwylliannol y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae argymhelliad 68 yn cyfeirio at y strategaethau y dylai ysgolion ac awdurdodau addysg lleol eu mabwysiadu i ymdrin â hiliaeth ac argymhelliad 69 yn cynnig bod gweithredu'r strategaethau hyn yn llunio rhan o drefn arolygu safonau ysgolion.

**Dadl**

4. Mae disgwyl i'r Cynulliad ddangos arweiniad wrth ymdrin â'r broblem sylfaenol o hiliaeth sefydliadol yng Nghymru.
5. Mae llawer o amheuaeth o fewn y gymuned groenddu a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru ynglþn ag i ba raddau mae'r Cynulliad wedi ystyried argymhellion addysgol Adroddiad MacPherson. Mae'r amheuaeth hwn wedi dyfnhau yr hyn y gwêl y gymuned groenddu a lleiafrifoedd ethnig fel diffyg dealltwriaeth y Cynulliad o'r problemau, sy'n

cael eu harddangos, dadleuant, gan y diffyg cyfeiriad penodol at hil yn y Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol a ddatblygwyd yn ddiweddar.

6. Fel ffordd o ddangos arweiniad, i ymdrin â materion addysgol yn well ac fel ffordd o gynllunio sut i fynd ymlaen gydag argymhellion 67-69, ystyriodd y gweithgor llywio bod angen sefydlu grðp. Byddai'n cynnwys cynrychiolwyr o:

i Adrannau perthnasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru
ii Estyn
iii ACCAC
iv Sefydliadau croenddu a lleiafrifoedd ethnig
v Heddlu De Cymru

7. Byddai'r swyddogaeth benodol a ragwelir ar gyfer y grðp hwn yn seiliedig ar ymagwedd partneriaeth er mwyn ffurfio a datblygu cynllun gweithredu i fynd ymlaen gydag argymhellion addysgol yr adroddiad, gan ddefnyddio arbenigedd mewnol ac allanol.

***Argymhellion***

8. Argymhellir bod y Pwyllgor yn cymeradwyo:

i Cylch gorchwyl y grðp llwyio sydd yn Atodiad 1;
ii Sefydlu gweithgor llywio i fynd ymlaen gyda'r materion addysgol, gyda mandad tasg a chwblhau ar sail y cylch gorchwyl yn Atodiad 2.

**Uned Polisi Cydraddoldeb**
**Ionawr 2000**

**ATODIAD 1**

**PWYLLGOR CYDRADDOLDEB CYFLE Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL**
**GRê P LLYWIO ADRODDIAD YMCHWILIAD LAWRENCE: CYLCH GORCHWYL**

***Bydd y grðp llywio hwn yn gweithio i ac o dan awdurdod y Pwyllgor Sefydlog ar Gydraddoldeb Cyfle*.**

**Swyddogaeth**

Bydd y Grðp Llywio yn ystyried, ac yn gwneud argymhellion ar:

- camau ymarferol a phriodol sy’n angenrheidiol er mwyn gweithredu adroddiad ymchwiliad Stephen Lawrence yn effeithiol yng Nghymru;
- sut mae’r Cynulliad Cendlaethol a sefydliadau eraill yn cyflawni eu cyfrifoldebau a’u rhwymedigaethau o ganlyniad i’r adroddiad;
- dulliau o hysbysu, cynghori a chodi ymwybyddiaeth gyhoeddus o'r materion a'r argymhellion sydd yn yr adroddiad ledled Cymru;
- sut y gellir nodi a lledaenu gwybodaeth ar y ffordd orau i ymladd yn erbyn hiliaeth o bob math yn bositif ac yn effeithiol, yn enwedig hiliaeth sefydliadol* fel y diffinnir yn yr adroddiad;
- camau a chynnydd o ran gweithredu'r amcanion y cytunwyd arnynt;
- anghenion o ran adnoddau i gyflawni’r amcanion a ddatganwyd ac y cytunwyd arnynt;
- sut y gall y Cynulliad fod yn atebol i’r cyhoedd i sicrhau nad yw'r amcanion y cytunwyd arnynt sy'n berthnasol i weithredu argymhellion Stephen Lawrence yn cael eu hanwybyddu neu eu tanseilio gan y rhai sy'n gyfrifol am eu gweithredu.

*"Methiant sefydliad cyfan i gynnig gwasanaeth priodol a phroffesiynol i bobl oherwydd eu lliw, eu diwylliant neu darddiad ethnig. Caiff ei weld, neu ei ganfod mewn prosesau, ymagweddau ac ymddygiad sy’n golygu gwahaniaethu trwy ragfarn, anwybodaeth, diffyg ystyriaeth ac ystrydebau hiliol diarwybod sy’n peri anfantais i bobl o leiafrifoedd ethnig".

**Aelodaeth**

Bydd aelodaeth y grðp llywio yn cynnwys pedwar cynrychiolydd enwebedig o’r Pwyllgor Sefydlog dros Gydraddoldeb Cyfle a chynrychiolydd o'r Uned Polisi Cydraddoldeb, gyda chefnogaeth Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor.

**Dull o Weithredu**

Bydd y Grðp Llywio yn cyfarfod yn chwarterol am gyfnod i’w gytuno gan y Pwyllgor Sefydlog dros Gydraddoldeb Cyfle ond nid wedi’r arolygiad 2 flynedd o’r cwricwlwm sy’n dechrau ym mis Medi 2000.

Bydd y Grŵp Llywio yn gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Cydraddoldeb Cyfle ar sut y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol a'i ASPB's gyflawni eu cyfrifoldebau a'u dyletswyddau fel y nodwyd yn Adroddiad Ymchwiliad Stephen Lawrence. Bydd y Pwyllgor ar Gydraddoldeb Cyfle yn rhoi arweiniad ac yn cytuno ar sut y dylai'r Grŵp Llywio weithredu.

**ATODIAD 2**

## ADRODDIAD YCHWILIAD STEPHEN LAWRENCE
## Y GWEITHGOR ADDYSG – CYLCH GORCHWYL

***Bydd y gweithgor tasg a chwblhau hwn yn gweithio i a than awdurdod Grŵp Llywio Ymchwiliad Stephen Lawrence o Bwyllgor Sefydlog Cydraddoldeb Cyfle.***

### Swyddogaeth

Bydd y Gweithgor yn:

- Ystyried ac argymell camau ymarferol a phriodol er mwyn mynd ymlaen gydag argymhellion addysgol (67-70) adroddiad ymchwiliad Stephen Lawrence yng Nghymru;

- Cynghori a chynnig argymhellion ar arweiniad ar y dulliau gorau i ymladd yn erbyn hiliaeth mewn modd effeithiol a phositif mewn ysgolion;

- Rhoi cyngor ar gynnydd o ran gweithredu yr amcanion y cytunwyd arnynt yn ymarferol.

### Aelodaeth

Bydd aelodaeth y gweithgor yn cynnwys cynrychiolydd o Adain berthnasol y Cynulliad (NAED, EPU), Race Equality First, Estyn, ACCAC, Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru, Heddlu De Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol.

### Dull o Weithredu

Bydd y Gweithgor yn cyfarfod yn rheolaid am gyfnod y cytunir arno gan grŵp llywio Ymchwiliad Stephen Lawrence ond nid y tu hwnt i arolwg y cwricwlwm sy'n parhau am 2 flynedd.

Bydd y Gweithgor yn gwneud argymhellion a chynigion i grŵp llywio Ymchwiliad Stephen Lawrence fydd yn rhoi arweiniad ac yn cytuno ar sut y dylai'r Gweithgor weithredu.